

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd
Dydd Mawrth 23 Chwefror 2021, 2-3.30pm
Microsoft Teams



<p><u>Yn Bresennol</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Y Cyngorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Paul Orders Sarah McGill Gareth Newell Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Fiona Kinghorn Abigail Harris Keith Meredith Mike Evans</p> <p>Sheila Hendrickson-Brown Alun Michael Mark Brace Wendy Gunney Jo Salway</p> <p>Ymddiheuriadau: Gareth O'Shea Len Richards Huw Jakeway Hannah Williams Anne Wei Nathan Swain</p> <p>Hefyd yn bresennol: Y Cyngorydd Lynda Thorne Mike Tate Melanie Wilkey Eleri Probert Geoff Hobbs Rosie James</p> <p>Clive Bailey</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) Prif Weithredwr, CC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Prif Swyddog Gweithredol, C3SC Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Swyddog Tân, GTADC Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC</p> <p>Cyd-gadeirydd, Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol, CC Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes. CC Pennaeth Comisiynu Seiliedig ar Ganlyniadau, BIP Caerdydd a'r Fro Rheolwr y Rhaglen Gomisiynu, BIP Caerdydd a'r Fro Uwch-swyddog Cynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru Rheolwr Strategaeth a Datblygu, Gwasanaeth Parciau a Chwaraeon, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC</p>
---	--

Rhif	Eitem Agenda	
1/2	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 20 Ionawr 2021 a nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.</p>	
3.	<p>Diweddariad COVID-19</p> <p>Rhoddodd Fiona Kinghorn drosolwg o ffigyrau diweddaraf Covid-19 yng Nghaerdydd, gan nodi bod achosion a defnydd gwelyau yn parhau'n uchel.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch yr anawsterau o ran deall y gwahaniaeth rhwng lefelau heintio yn y gweithle a'r gymuned gan y gallai staff fod yn trosglwyddo'r feirws i'r gymuned. Cytunodd Fiona Kinghorn i ymchwilio ymhellach i hyn.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch cyflwyno profion llif unffordd mewn nifer o leoliadau, gan gynnwys ysgolion. O brofi, bydd cynnydd yn nifer yr achosion yn anochel, ond ni ddylid cymryd yn ganiataol bod unrhyw gynnydd mewn achosion yn ganlyniad i ailagor ysgolion.</p> <p>Rhoddodd Mike Tate, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, drosolwg o'r amserlen ar gyfer dychwelyd i'r ysgol i bob cyfnod allweddol. Datblygwyd canllawiau ar brofion llif unffordd ar gyfer penaethiaid. Mae profion yn cael eu cofnodi ac yn sbarduno prawf PCR dilynol yn awtomatig. Dynodwyd Swyddog Rheoli Brys a Swyddog Iechyd a Diogelwch i bob ysgol.</p> <p>Rhoddwyd cyfle i bob sefydliad rannu diweddariad Covid-19. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar adferiad y ddinas.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai adferiad y ddinas fod yn eitem agenda i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) yn y dyfodol. • Iechyd meddwl oedolion a niwed cudd i fod yn eitem agenda BGC. 	<p>Fiona Kinghorn</p> <p>Ysgrifenydd Ysgrifenydd</p>
4.	<p>Diogelwch Cymunedol</p> <p>4.1 Ail-gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau</p> <p>Nododd Fiona Kinghorn ac Eleri Probert y weledigaeth ar gyfer ail-gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn y dyfodol a'r defnydd o Gytundeb Cynghrair. Disgwylir y bydd Cytundeb Cynghrair yn ei le erbyn Gorffennaf 2022.</p> <p>Cadarnhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ei gefnogaeth i'r dull partneriaeth hwn ond gofynnodd hefyd am gefnogaeth y BGC i'r angen i fynd ymhellach a datblygu ffyrdd arloesol o newid agweddau ac</p>	

<p>ymddygiadau yn y boblogaeth gyffredinol. Yn benodol, gweithio gydag ysgolion, colegau a phrifysgolion a phartneriaid eraill i ddod o hyd i ffyrdd o helpu i atal pobl ifanc rhag cael eu denu i gamddefnydd sylweddau, ymddygiad troseddol a throseddau cyfundrefnol difrifol fel llinellau cyffuriau.</p> <p>Cadarnhaodd y Cyngorydd Lynda Thorne hefyd ei chefnogaeth i'r dull ond tynnodd sylw at y ffaith bod angen parhau i adolygu gwasanaethau i wneud addasiadau mewn ymateb i anghenion cyfredol tra'n aros am y trefniadau newydd sydd ar y gweill yn 2022.</p> <p>Caiff adolygiad cyflym manwl o wasanaethau ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth.</p> <p>Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i'r broses gomisiynu roi ystyriaeth i leoliad ffisegol gwasanaethau ac effaith hyn ar cymunedau.</p> <p>Cytunwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunodd y BGC i'r defnydd o Gontract Cynghrair ar gyfer darpariaeth anstatudol. • Cymeradwyodd y BGC ddatblygiad Cynghrair Camddefnyddio Sylweddau ehangach gan gynnwys partneriaid perthnasol. • Cytunwyd i waith ar newid ymddygiadol er mwyn atal pobl ifanc rhag cael eu denu i gamddefnyddio sylweddau a/neu ymgrymryd â gweithgarwch troseddol. <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad cyflym o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol a BGC cyn gynted â phosibl. <p>4.2 Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol</p> <p>Rhannodd Sian Sanders grynoded o'r diweddariad a ddsbarthwyd gyda'r papurau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi'i gyhoeddi ac mae'r blaenoriaethau wedi'u cynnwys ar gyfer 2021-2022. • Mae blaenoriaeth 'Canol y Ddinas a Chysgu ar y Stryd' wedi'i hailenwi'n 'ffyrdd o fyw ar y stryd' i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed o ran cysgu ar y stryd. • Bydd Adolygiad Dynladdiad Domestig (ADD) 1 yn cael ei gyhoeddi yn dilyn ymgysylltu â'r teulu ar y dull sydd i'w gymryd. • Mae canllawiau a Chylch Gorchwyl ar gyfer cynnal yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl o ADD 10 yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu dosbarthu i'r BGC yn rhan o gychwyn yr adolygiad. • Mae Grŵp Atal Trais yn cael ei sefydlu cyn y Bil atal trais newydd y disgwylir iddo ddod i rym yn 2022. 	<p>Fiona Kinghorn/ Eleri Probert</p>
---	--------------------------------------

5.	<p>Ymateb i'r Adroddiad Craffu Gwasanaethau a Chymorth Lles ac Iechyd Meddwl Plant</p> <p>Gohiriwyd.</p> <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr eitem hon yn cael ei gohirio i gyfarfod nesaf y BGC ym mis Mawrth. Camau a nodwyd mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad i fod yng nghyd-destun datblygu'r Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant. 	Finn Madell/Rose Whittle/Ysgrifenydd
6.	<p>Cyfrifiad 2021</p> <p>Amlinellodd Gareth Newell bwysigrwydd y cyfrifiad i gynllunio gwasanaethau, eglurodd sut y bydd y 'Cyfrifiad Digidol' yn gweithio a'r heriau a wynebir o ran cyrraedd y grwpiau mwyaf agored i niwed ac anodd eu cyrraedd, yn enwedig yn ystod pandemig.</p> <p>Cytunwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunodd y BGC i helpu i hyrwyddo'r Cyfrifiad. 	Pawb
7.	<p>Unrhyw Fusnes Arall ac Edrych tua'r Dyfodol</p> <p>a) Cronfa Dyranau Strategol CNC - Ymarfer adnabod tir BGC.</p> <p>Rhoddodd Geoff Hobbs (CNC) a Rosie James o Wasanaeth Parciau'r Cyngor drosolwg o fenter Coed Caerdydd a'r cais am gyswllt ym mhob sefydliad BGC i hwyluso adnabod tir ar gyfer plannu coed.</p> <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Cadeirydd i ysgrifennu at y BGC yn gofyn bod pob sefydliad BGC yn darparu cyswllt addas ar gyfer hwyluso'r gwaith o asesu tir ar gyfer cynyddu'r canopi coed ledled y ddinas. <p>b) Gweminarau Xchange Cenedlaethau'r Dyfodol 2021</p> <p>Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Bwrdd at weminarau Xchange Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mawrth (manylion cofrestru eisoes wedi'u dosbarthu). Bydd y Prif Weinidog yn sôn am effaith y pandemig ar ddyfodol ein pobl ifanc. Bydd Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn siarad am arfer gorau ar gyfer BGCau ac yn adeiladu Cymru gynaliadwy wrth i ni ddysgu o'r argyfwng.</p> <p>c) Edrych ymlaen:</p> <p>Mawrth 2021</p> <ul style="list-style-type: none"> • BIP Caerdydd a'r Fro: Llunio ein rhaglen Gwasanaethau Clinigol • Asesiad Lles y BGC wedi'i ddiweddarau • Adroddiad Craffu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Chymorth Lles 	Ysgrifenydd

	<p>Mehefin 2021</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad blynyddol Symud Mwy Bwyta'n Dda <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Is-gadeirydd y BGC i gadeirio'r cyfarfod BGC ym mis Ebrill. 	Ysgrifenydd
	<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • BGC Caerdydd, 16 Mawrth 2021 • BGC Caerdydd 14 Ebrill 2021 	